# Trawsnewid Trefi

## Canllawiau Cyhoeddusrwydd a Brandio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

## Cynnwys

1. Datganiadau i'r Wasg
2. Ymweliadau gan Weinidogion a Digwyddiadau Lansio
3. Y Gymraeg
4. Nod Brand
   (gan gynnwys hysbysfyrddau a phlaciau, opsiynau, parth eithrio, defnyddio logos Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon, uniondeb)
5. Palet Lliwiau
6. Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol
7. Ffontiau

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl ganllawiau a chyfarwyddiadau angenrheidiol ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni sy'n ysgrifennu datganiadau i'r wasg ac yn defnyddio'rbrand mewn perthynas â rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â **RegenerationPolicy@llyw.cymru**

“Yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weinyddiaeth newydd ar gyfer Newid Hinsawdd gan ddangos pwysigrwydd yr agenda Newid Hinsawdd ac ymrwymo i gynnwys ymateb i'r argyfwng hinsawdd a byd natur ym mhopeth a wnawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo datblygu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.

Mae Trawsnewid Trefi wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r dirywiad yng nghanol dinasoedd a threfi Cymru gan sicrhau eu bod yn ffynnu yn ogystal â goroesi. Mae Trawsnewid Trefi yn canolbwyntio ar wella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd; ailddefnyddio adeiladau gwag; cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn trefi gan roi pwyslais ar weithio hyblyg a mannau byw; a mynediad at wasanaethau a hamdden. Y flaenoriaeth yw sicrhau cynaliadwyedd hirdymor canol trefi a dinasoedd trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a sicrhau bod y lleoedd hyn yn denu pobl.

O ganlyniad i'n polisi Canol Trefi yn Gyntaf, sydd wedi'i ymgorffori yn ein fframwaith cynllunio cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol, mae angen ystyried canol trefi yn gyntaf ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â mynediad at fannau agored, lleoliad gweithleoedd a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch.

Byddwn yn cynnal ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi gan sicrhau eu bod yn lleoedd gwell a chroesawgar i fyw a gweithio ynddynt.”

# Datganiadau i'r Wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn hanfodol wrth drosglwyddo negeseuon am Drawsnewid Trefi mewn modd cyson.

O ganlyniad, **rhaid** i bob datganiad i'r wasg, stori nodwedd a hysbyseb yn ymwneud â phrosiect neu fuddiolwr perthnasol (e.e. cymeradwyo prosiect, cynllun lle, digwyddiad lansio, cyrraedd carreg filltir) gydnabod y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru – prosiect Trawsnewid Trefi yn benodol yn yr achos hwn. Rhaid cael dyfyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl gynnwys hwn hefyd.

Mae'r rhestr ganlynol wedi'i chreu i'w gwneud yn haws nodi'r holl elfennau angenrheidiol sydd angen eu cynnwys mewn datganiad i'r wasg.

## Paragraff Agoriadol

Mae'n hanfodol bod rhaglen Trawsnewid Trefi yn cael ei chrybwyll tua dechrau pob datganiad i'r wasg perthnasol yn ymwneud â chyllid. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld isod:

- "Heddiw [NODWCH Y DYDDIAD] mae Cyngor Sir [TREF] wedi cyhoeddi cynlluniau i adfywio adeilad [ENW] yn [TREF] – diolch i fenter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru."
- "Roedd modd gwireddu'r prosiect [£X miliwn] diolch i [AWDURDOD LLEOL] a grant gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.
- "Datgelwyd heddiw [NODWCH Y DYDDIAD] y bydd Cyngor Sir [TREF] yn defnyddio £X miliwn o gyllid Trawsnewid Trefi i greu mwy o fannau gwyrdd yn [TREF]."
- "Heddiw [DYDDIAD], bydd hen [ENW'R adeilad] yn ailagor fel canolfan gymunedol yn [TREF]. Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Sir [TREF] ac fe'i gwireddwyd diolch i grant £X miliwn gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru."

## Prif Destun y Datganiad a Nodiadau'r Golygydd

Gan weithredu fel crynodeb o'r prosiect Trawsnewid Trefi, mae'n hanfodol bod y **paragraff** canlynol yn cael ei ddefnyddio ym mhrif destun pob datganiad i'r wasg yn ymwneud â chyllid.

Bydd y dull hwn yn helpu i gyfeirio at y prosiect mewn ffordd gyson, gan osgoi enwi ffrydiau ariannu unigol (rhywbeth rydym am ei osgoi):

> *"Mae Trawsnewid Trefi yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu £*** miliwn i adfywio canol trefi yng Nghymru. Mae canol trefi a dinasoedd yn rhan hanfodol a phersonol o dreftadaeth a chymuned Cymru, ac mae'r rhaglen Trawsnewid Trefi yn ymrwymo i wasanaethu a chysylltu'r bobl sy'n byw, yn gweithio, yn dysgu ac yn treulio amser hamdden ynddynt."*

Hefyd, mae angen cynnwys y paragraff yn adran 'nodiadau'r golygydd' eich datganiad i'r wasg, gan greu dolen i'r dudalen ganlynol:
llyw.cymru/cymorth-i-wella-canol-trefi/rhaglen-targedu-buddsoddiad-mewn-adfywio

Bydd hyn yn sicrhau bod newyddiadurwyr yn ymwybodol o'r corff ariannu ac yn gallu dod o hyd i ragor o wybodaeth os oes angen.

## Negeseuon Allweddol Eraill

Er mwyn sicrhau llwyddiant ehangach y prosiect, rydym am i Awdurdodau Lleol fabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â datganiadau i'r wasg, drwy gynnwys prosiectau a datblygiadau ehangach sydd eisoes ar waith yn eich tref o dan y rhaglen Trawsnewid Trefi. Hefyd, gellir cysylltu'r rhain â buddsoddiad ehangach Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cynnwys y negeseuon a'r datganiadau allweddol canlynol hefyd – lle bo modd – ym mhrif destun eich datganiad i'r wasg:

- Mae Trawsnewid Trefi [mewn print trwm] yn canolbwyntio ar wella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd; addasu eiddo sydd wedi'i esgeuluso at ddefnydd gwahanol; cynyddu mannau gweithio a byw hyblyg; a darparu mynediad at wasanaethau.
- O ganlyniad i'n **polisi Canol Trefi yn Gyntaf**, sydd wedi'i ymgorffori yn ein fframwaith cynllunio cenedlaethol: **Cymru'r Dyfodol**, mae angen ystyried canol trefi yn gyntaf ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â lleoliad gweithleoedd a gwasanaethau.
- Mae canol ein trefi a'n dinasoedd yn wynebu llawer o heriau, sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig – er mwyn sicrhau bod ein trefi nid yn unig yn goroesi ond yn ffynnu hefyd, mae angen i ni eu hailddyfeisio a'u hailfywiogi i greu lleoedd lle mae pobl am dreulio eu hamser.
- Mae'r prosiect/cynlluniau/datblygiad yn cynyddu buddsoddiad yng nghanol ein trefi lleol. Mae cymorth Trawsnewid Trefi [mewn print trwm] yn canolbwyntio ar sicrhau cynnig ehangach o weithgareddau a defnyddiau gan gynnwys manwerthu, gofod busnes hyblyg, hamdden, gwasanaethau lleol a gweithgareddau diwylliannol.
- Mae Trawsnewid Trefi eisiau cynorthwyo cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u trefi.
- Mae'r prosiect yn ymwneud â sicrhau bod ein trefi'n lleoedd gwyrddach a mwy deniadol i ymweld â nhw – gan ddangos eu nodweddion gorau a sicrhau bod pawb sy'n byw sy'n byw yng nghanol y dref, yn gweithio yno neu'n ymweld yn teimlo bod croeso iddynt.

## Defnyddio Dyfyniadau

Mae angen cynnwys dyfyniad gan y Gweinidog perthnasol bob tro, fel arfer yr Ysgrifennydd Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant AS, gan ei osod fel a ganlyn:

Dywedodd [Teitl y Gweinidog], [Enw'r Gweinidog]: "Dyfyniad yma."

Mae'r dyfyniad canlynol gan Jayne Bryant AS wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw a gellir ei gynnwys mewn unrhyw ddatganiad i'r wasg heb gymeradwyaeth ychwanegol:

Dywedodd y Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant AS:

> *"Rydym am i ganol trefi a dinasoedd ledled Cymru fod yn galon i gymunedau Cymru, lle gall pobl gael mynediad at wasanaethau, siopau, mannau cymunedol a diwylliannol.*
>
> *Drwy ein rhaglen Trawsnewid Trefi, rydym yn darparu £xxx miliwn i gefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol canol ein trefi a'n dinasoedd ymhellach.*
>
> *Mae ein polisi Canol Tref yn Gyntaf, sydd wedi'i ymgorffori yng nghynllun datblygu cenedlaethol Cymru'r Dyfodol, yn golygu mai safleoedd canol trefi a dinasoedd ddylai fod yn ystyriaeth gyntaf ar gyfer pob penderfyniad ar leoliad gweithleoedd a gwasanaethau."*

Er mwyn cymeradwyo dyfyniad newydd gan Weinidog – yn ogystal â phob datganiad i'r wasg yn ymwneud â chyllid yn ei gyfanrwydd – rhaid anfon pob datganiad drafft i'r wasg cyn gynted â phosibl cyn ei ryddhau i ClimateChange-PressOffice@llyw.cymru a RegenerationPolicy@llyw.cymru.

## Defnyddio Cynnwys Amlgyfrwng

Argymhellir yn gryf y dylech ddefnyddio ffotograffau a chynnwys amlgyfrwng amrywiol yn eich datganiad i'r wasg. Dylech sicrhau bod yr holl ddelweddau a chynnwys fideo yn ddeniadol ac o ansawdd uchel (o leiaf 300 dpi). Gweler canllawiau brandio Trawsnewid Trefi i gael rhagor o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r logo yn gywir.

## Enghraifft o Restr Wirio Datganiad i'r Wasg

Cyn ysgrifennu – neu ar ôl gorffen – eich datganiad i'r wasg, defnyddiwch y rhestr wirio ganlynol i sicrhau bod yr holl elfennau angenrheidiol yn cael eu cynnwys:

- Cyfeiriad at raglen Trawsnewid Trefi yn y paragraff agoriadol.
- Cynnwys o leiaf un neges allweddol Trawsnewid Trefi.
- Cynnwys dyfyniad gan weinidog perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Atodi cynnwys amlgyfrwng diddorol o ansawdd uchel.
- Fersiwn dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

# Ymweliadau gan Weinidogion, Digwyddiadau Lansio

Rhaid hysbysu'r tîm Adfywio Rhanbarthol cyn gynted â phosibl am unrhyw ddigwyddiadau, ymweliadau neu gerrig milltir allweddol mewn perthynas â phrosiectau sy'n derbyn cyllid cyfalaf, megis seremoni torri tywarchen/gosod y garreg gopa, agoriadau swyddogol, digwyddiadau contract neu brosiect, cynlluniau a threfniadau lansio.

[Gweler yr wybodaeth yn gynharach yn y ddogfen am gyngor ar ddrafftio datganiadau i'r wasg.]

Mewn llawer o achosion, efallai y bydd gan un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ddiddordeb mewn mynychu digwyddiadau lansio prosiectau, a gallai ymweld â phrosiectau sydd ar waith hefyd er mwyn gweld sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio. Bydd y tîm yn gweithio gydag awdurdodau lleol i drefnu'r digwyddiadau hyn a threfnu bod Gweinidog yn bresennol.

Hefyd, byddem yn croesawu unrhyw ffotograffau neu astudiaethau achos yn ymwneud â'ch prosiect yr ydych wedi cytuno i'w darparu fel rhan o'ch llythyr dyfarnu grant ar gyfer y prosiect.

Byddwn yn eu harddangos ar dudalennau Trawsnewid Trefi gwefan Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu arferion da yn genedlaethol, a gallem eu cynnwys mewn cyhoeddusrwydd corfforaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar ôl cael eich caniatâd.

# Y Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid i'r holl weithgarwch cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect fod yn ddwyieithog, a rhaid iddo gydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru.

Cysylltwch â communicationcontractsmailbox@llyw.cymru i gael copi o'r canllawiau hyn. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob rhaglen sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

# Nod Brand
## Canllawiau Defnyddio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

# Nod Brand

Os yw eich prosiect wedi'i ariannu gan y Rhaglen Trawsnewid Trefi, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod pob un o'r contractwyr a'r noddwyr sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn cydymffurfio â'r canllawiau brandio ar gyfer y rhaglen hon, fel y cytunwyd yn y llythyr dyfarnu ar gyfer y prosiect. Mae'n ofynnol i bob contractwr a noddwr prosiect arddangos logo'r Rhaglen a logo Llywodraeth Cymru ar bob arwydd a datganiad i'r wasg.

## Prif logo

Ein nod brand yw elfen fwyaf adnabyddus ein hunaniaeth. Nod beiddgar sy'n cynrychioli cydweithio a thwf yn eintrefi yng Nghymru. Dyma ein llofnod ar bob darn o ohebiaeth ac mae'n ein huno ym mhopeth a wnawn.

Dylid defnyddio'r prif nod brand dwyieithog ar y dde ar gyfer pob gohebiaeth.

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

# Hysbysfyrddau a Phlaciau

Rhaid arddangos y logos mewn ffordd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol ar gyfer hysbysfyrddau a phlaciau:

- Dylid defnyddio logo Trawsnewid Trefi a logo Llywodraeth Cymru.
- Dylai'r ddau logo gael yr un amlygrwydd â logo unrhyw bartner ariannu arall.
- Rhaid i'n nod brand ymddangos bob amser gyda logo Llywodraeth Cymru a logo Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn ogystal â logos partneriaid eraill pan fydd hynny'n briodol. (Gweler y canllawiau.)

Wrth benderfynu ar eiriad y plac cofiwch y canlynol:

- Mae angen i blac adrodd y stori, felly rhaid meddwl am y neges rydych chi am ei chyfleu (a yw'r plac yn cydnabod cyllid? A yw'n coffáu seremoni agoriadol? A yw'n gwneud y ddau? Enw'r prosiect? Pwy sy'n cymryd rhan? Beth yw'r dyddiad?)
- Mae angen cyfleu'r neges mewn ffordd glir a chryno a chyson o safbwynt y ffeithiau.
- Dylid gosod y testun Cymraeg lle mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- Os gofynnir i Weinidog ddadorchuddio plac, rhaid sicrhau bod Swyddfa'r Gweinidog perthnasol yn cael gwybod ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.
- Dylid ysgrifennu dyddiadau ar blaciau ar ffurf 01 Ionawr 2021 yn y Gymraeg a 01 January 2021 yn y Saesneg.
- Peidiwch â defnyddio 'st' 'nd', 'rd', 'th' yn y Saesneg. Peidiwch â defnyddio 'af', 'ail', 'ydd', 'ed', 'ee', 'fed', 'ain' yn y Gymraeg.

Ar ôl cwblhau prosiect, gellir codi arwydd neu blac dwyieithog parhaol, sy'n cydnabod yn ffurfiol gyfraniad Llywodraeth Cymru a Trawsnewid Trefi ac, os yw'n berthnasol, cyllid Ewropeaidd. Rhaid anfon fersiwn drafft i gael cymeradwyaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer canllawiau defnyddio logo, gweler Canllawiau Brand Trawsnewid Trefi.

# Dewisiadau nod brand

### Amrywiadau

Er mwyn cael yr effaith a'r gydnabyddiaeth fwyaf, rhaid defnyddio ein nod brand mewn lliw sengl yn unig, naill ai mewn mono neu yn un o liwiau'r palet a ddarperir.

# Parth eithrio nod brand

Er mwyn mewnosod y nod brand yn eich dogfen:

- Agorwch eich dogfen.
- Cliciwch ar Mewnosod.
- Cliciwch ar Lluniau.
- Dewch o hyd i'r nod brand yn eich delweddau sydd wedi'u cadw a dwbl-gliciwch arno.

Yna dylai'r nod brand ymddangos yn eich dogfen gyda blwch o'i gwmpas.


## Parth eithrio

Rhaid i'n nod brand ymddangos bob amser gyda logo Llywodraeth Cymru a logo cronfeydd yr UE, yn ogystal â logos partneriaid eraill pan fydd hynny'n briodol. Dylent gael yr un amlygrwydd, sy'n cael ei bennu gan uchder logo Llywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau bod ein nod brand yn cael ei arddangos yn dda, mae'n bwysig cadw parth eithrio.

Rydym yn cyfrifo hyn drwy ddefnyddio'r gofod sydd wedi'i uwcholeuo yn yr enghraifft i ffurfio sgwâr, gan greu parth eithrio'r holl ffordd o gwmpas y nod brand fel yn yr enghraifft. Dylid defnyddio'r un mesur hwn i osod y logos ychwanegol.

**Exclusion Zone**




**Height guide**

# Defnyddio'r nod brand gyda logos Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon

Rhaid defnyddio logo Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'n nod brand ar gyfer pob cyhoeddiad. Dylai gael yr un amlygrwydd ac ni ddylai fyth fod yn llai na 22mm o led.

Rydym yn argymell y meintiau hyn (lled) ar gyfer y fformatau canlynol

DL - 30mm | A5 - 30mm | A4 - 30mm | A3 - 40mm

Dylai pob logo fod â'r un amlygrwydd, sy'n golygu na ddylai unrhyw logo fod yn fwy neu'n llai nag uchder logo Llywodraeth Cymru.

Os yw eich prosiect wedi derbyn arian Ewropeaidd neu wedi cynnwys cyllid gan bartneriaid eraill, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r logos priodol ac yn rhoi'r un amlygrwydd iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth am ganllawiau logo'r UE, gweler:
llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-2020-canllawiau-cyhoeddusrwydd.pdf

I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau brandio Llywodraeth Cymru:
llyw.cymru/logo-llywodraeth-cymru-canllawiau




**Defnydd lleiaf 22mm**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**DL,A5,A4 - 30mm**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**A3 - 40mm**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Uniondeb nod brand

Mae defnydd priodol, eglurder ac uniondeb y nod brand yn bwysig. Rhaid defnyddio'r nod brand yn briodol ac fel mae wedi'i ddarparu bob amser er mwyn sicrhau defnydd cyson a chywir o nod brand Trawsnewid Trefi.

**PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL:**

- Ymestyn, ystumio neu newid maint y logo.
- Newid teip y logo.
- Newid yr elfennau mewn unrhyw ffordd.
- Defnyddio'r logo ar ongl.
- Defnyddio'r logo ar gefndir sy'n ei wneud yn llai eglur.
- Defnyddio cysgod neu unrhyw effeithiau eraill.



# Palet lliwiau


## Amrywiadau

Mae ein palet lliwiau craidd yn cynnwys set o liwiau wedi'u dewis yn ofalus sy'n olau ac yn groesawgar, ac yn gweithio gyda'i gilydd mewn cytgord, gan ein galluogi i gyfathrebu â brwdfrydedd ac angerdd.

Ar gyfer amrywiaeth, mae arlliwiau 60% a 30% ar gael i'w defnyddio.

**PANTONE:** I'w ddefnyddio mewn print
**CMYK:** I'w ddefnyddio mewn print

**RGB:** I'w ddefnyddio ar y sgrin
**Gwe #:** I'w ddefnyddio ar y sgrin




| | | | |
|---|---|---|---|
| Pantone 310 | Pantone 7481 | Pantone 137 C | Pantone 191 |
| **C**0 **M**0 **Y**0 **K**100 | **C**83 **M**0 **Y**89 **K**0 | **C**0 **M**45 **Y**92 **K**0 | **C**0 **M**85 **Y**33 **K**0 |
| **R**29 **G**29 **B**27 | **R**2 **G**188 **B**91 | **R**249 **G**158 **B**25 | **R**239 **G**66 **B**111 |
| **Gwe** #1D1D1B | **Gwe** #02BC5B | **Gwe** #F99E19 | **Gwe** #EF426F |

# Defnydd ar y Cyfryngau Cymdeithasol

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

I gael yr effaith fwyaf wrth ei ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol fel llun proffil, gellir gwahanu ein nod brand oddi wrth y nod gair yn ei ffurf symlaf.

At ddibenion amrywiaeth, mae detholiad o opsiynau lliw ar gael o'n palet lliwiau trawiadol.

**Noder:** Dyma'r unig sefyllfa pan ddylai'r nod brand ymddangos ar ei ben ei hun.

# Ffontiau

## Ar gyfer dylunio cyfochrog

Ar gyfer ein prif ddeunyddiau dylunio a marchnata, rydym yn defnyddio amrywiadau o'r ffont Din.

## Copi prif destun

Y manylebau a argymhellir ar gyfer copi prif destun mewn print yw: Din Regular gydag isafswm maint ffont o 10pt/12pt (ar gyfer A4/A3).

Gall y prif destun ddefnyddio unrhyw liw o'r palet lliwiau, ond rhaid sicrhau bod digon o gyferbyniad yn y testun i allu ei ddarllen yn glir.

Aa

## Din

Defnyddiwch ar ddeunydd printiedig lle bo hynny'n bosibl

Din Light
abcdefghijklmnopqrstuvwxyz
ABCDEFGHIJKLMNOPQRS
1234567890@#%&

Din Regular
abcdefghijklmnopqrstuvwxyz
ABCDEFGHIJKLMNOPQRS
1234567890@#%&

**Din Demi**
**abcdefghijklmnopqrstuvwxyz**
**ABCDEFGHIJKLMNOPQRS**
**1234567890@#%&**

**Din Bold**
**abcdefghijklmnopqrstuvwxyz**
**ABCDEFGHIJKLMNOPQRS**
**1234567890@#%&**

# Ffontiau

## Defnyddiwch ar bob cymhwysiad sydd angen ffont sy'n gydnaws â'r we

*h.y., word, powerpoint*

Dewiswyd Arial fel dewis amgen i Din pan fydd angen ffont sy'n gydnaws â'r we. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael.

### Copi prif destun

Y manylebau a argymhellir ar gyfer darllen prif destun yw: Arial Regular gydag isafswm maint ffont o 9pt/12pt (ar gyfer A4/A3).

Gall y prif destun ddefnyddio unrhyw liw o'r palet lliwiau, ond rhaid sicrhau bod digon o gyferbyniad yn y testun i allu ei ddarllen yn glir.

Aa

### Arial

Defnyddiwch ar bob cymhwysiad sydd angen ffont sy'n gydnaws â'r we, h.y., word, powerpoint

Arial Regular
abcdefghijklmnopqrstuvwxyz
ABCDEFGHIJKLMNOPQRS
1234567890@#%&

*Arial Italic*
*abcdefghijklmnopqrstuvwxyz*
*ABCDEFGHIJKLMNOPQRS*
*1234567890@#%&*

**Arial Bold**
**abcdefghijklmnopqrstuvwxyz**
**ABCDEFGHIJKLMNOPQRS**
**1234567890@#%&**

***Arial Bold Italic***
***abcdefghijklmnopqrstuvwxyz***
***ABCDEFGHIJKLMNOPQRS***
***1234567890@#%&***

## Cysylltu â Ni

Os oes angen unrhyw gyngor pellach arnoch ar ddefnyddio'r deunyddiau marchnata, cysylltwch â **RegenerationPolicy@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51481, ISBN digidol 978-1-83715-255-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns